Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin Sant Aubin

**503a Cowbridge Rd East**
**Canton**
**Cardiff**
**CF5 1BB**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Ysgol Feithrin Sant Aubin

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Ysgol Feithrin Sant Aubin |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Jodie Evans a Susan Shepherd-Evans |
| Person â gofal | Jessica Thomas a Gemma Bury |
| Nifer y lleoedd | 32 |
| Amrediad oedran y plant | 2-5 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 17 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 7:30 – 18:00 Dydd Llun – Dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mawrth 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Hydref 2019 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 15/10/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Dylai'r lleoliad barhau i weithredu'r arfer hynod effeithiol er mwyn cefnogi datblygiad, lles ac addysg yr holl blant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas ag addasu profiadau mewn ymateb i ddiddordebau plant, i'w ledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae'r plant yn ganolbwynt i'r feithrinfa ac mae ganddynt lais cryf iawn ar draws nifer helaeth o'u profiadau. Er enghraifft, wrth chwilio am drychfilod yn y parc lleol, manteisiodd y plant ar gyfle i sgwrsio â dau heddwas cymunedol a newid gogwydd eu dysgu. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i'r plant gyfathrebu eu dymuniadau a gwneud cysylltiadau yn y gymuned leol. Mae'r plant yn cyfrannu'n effeithiol at ei amgylchedd trwy benderfynu ar beth i arddangos ar y ffenest ac ar y bwrdd arddangos. O ganlyniad, mae bron bob un yn gwybod bod ganddynt lais ac y caiff eu dymuniadau eu parchu. Mae bron bob plentyn yn gwneud penderfyniadau cwbl wybodus ynglŷn â'u chwarae, wrth iddynt symud o gwmpas yr amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored.

Mae gan blant ymdeimlad arbennig o berthyn i'r lleoliad ac maent yn gyfarwydd iawn ag arferion a threfniadau dyddiol. O ganlyniad, mae bron bob un yn ymdopi'n eithriadol o dda wrth wahanu oddi wrth rhieni a gofalwyr. Maent yn cael cyfleoedd effeithiol iawn i fynegi eu teimladau yn gyson. Er enghraifft, mae'r plant yn gwneud defnydd o'r cerrig teimladau a chymeriad llyfrau sy'n eu cefnogi i ymateb i'w teimladau. Mae gwaith celf y plant yn unigryw ac maent yn cael eu harddangos yn gelfydd ynghyd â ffotograffau ohonynt tu allan i'r feithrinfa a gyda'u teuluoedd. Mae'r plant yn dangos cryn falchder wrth gyfeirio at rain er mwyn dangos a thrafod yr hyn sydd yn bwysig iddynt. O ganlyniad mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio'n eithriadol o dda â'i gilydd ac yn cydweithio'n effeithiol iawn. Er enghraifft, wrth chwarae yn y cornel tŷ bach, maent yn rhannu adnoddau yn llwyddiannus wrth iddynt dorri cennin a thatws a phenderfynu coginio

cawl. Maent yn canolbwyntio am amser cynyddol ac yn llongyfarch ei gilydd yn naturiol. Mae’r plant yn datblygu medrau cymdeithasu buddiol. Mae’r plant yn dangos parch uchel iawn at eiddo ac yn defnyddio adnoddau’n hynod o ofalus. Wrth ddefnyddio’r offer torri amser byrbryd, maent yn sicrhau bod eu ffrindiau i gyd yn cael cyfle i’w defnyddio.

Mae bron bob plentyn yn dangos lefel uchel o gymhelliant a dyfalbarhad wrth chwarae gan eu bod yn dilyn eu syniadau eu hunain ac yn arbrofi ag adnoddau dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn cymryd rhan yn weithredol mewn cyfleoedd dysgu cyffrous sy’n eu galluogi i ddysgu, archwilio a darganfod yn llwyddiannus iawn. Mae bron bob plentyn yn dangos hyder cynyddol wrth symud o gwmpas y lleoliad a dewis adnoddau. Maent yn archwilio’u hamgylchedd yn annibynnol ac yn dilyn eu diddordebau yn rhydd. Mae’r rhan fwyaf yn canolbwyntio am amser cynyddol ac yn dangos brwdfrydedd a mwynhad wrth wrando ar storïau a chaneuon Cymraeg. Mae plant yn canolbwyntio am amser estynedig gan ddangos amynedd a dyfalbarhad. Er enghraifft, mae plant yn dyfalbarhau wrth iddynt daro’r iâ i ryddhau’r bwydydd sydd wedi cuddio.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau annibynnol effeithiol iawn. Maent yn symud yn hyderus tu hwnt, o un ardal i’r llall, gan gynnwys yr ardal allanol. Mae’r plant yn cymryd cyfrifoldeb arbennig am eu hylendid personol. Er enghraifft, maent yn estyn am hances i chwythu trwyn a’u waredu yn y bin cywir. Mae’r plant yn mynd i’r tŷ bach ac yn golchi eu dwylo yn annibynnol drwy gydol y dydd. Maent yn hyderus yn datblygu medrau newydd. Enghraifft nodedig o hyn yw’r cyfleoedd maent yn cael i ddefnyddio offer go iawn megis dril llaw, morthwyl a llif.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn gweithio'n hynod effeithiol i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt wybodaeth ac ymwybyddiaeth arbennig o dda am bolisïau a gweithdrefnau perthnasol i gadw plant yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gadarn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon diogelu. Maent yn cwblhau cofnodion perthnasol a manwl ar gyfer damweiniau a digwyddiadau. Cedwir cofnod presenoldeb cywir o ymarferwyr a phlant, a chofnod o ymwelwyr. Mae ymarferwyr yn goruchwylio plant yn effeithiol iawn ac maent yn adnabod risgiau ac yn cynnal ymarferion tân, sydd oll yn cyfrannu at ddarpariaeth ddiogel iawn i'r plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd dyddiol i blant dreulio amser yn yr awyr agored, beth bynnag fo’r tywydd. Maent yn sicrhau bod plant yn dysgu am gadw’n ddiogel tra yn y lleoliad ac allan yn y gymuned. Er enghraifft, maent yn dysgu am gadw’n ddiogel a chroesi’r ffordd ar y stryd ger y feithrinfa. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol, gan gynnwys darparu byrbryd a diodydd

iach, ac yn sicrhau bod dŵr ar gael ar bob adeg. Yn ogystal, maent yn dilyn gweithdrefnau manwl iawn wrth ymateb i anghenion bwyta penodol plant unigol. Maent yn sicrhau bod y plant yn deall y pwysigrwydd o hylendid gan gymryd mantais ar gyfleodd bob dydd, megis annog y plant i frwsio dannedd a gosod y bwrdd i fwyta.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl rhagorol. Mae ganddynt berthynas arbennig o agos a chynnes gyda’r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Mae ymarferwyr yn defnyddio iaith gadarnhaol gyda'r plant sy’n hyrwyddo ymddygiad da ac mae ymarferwyr yn cefnogi’r plant yn briodol drwy ddangos diddordeb gwirioneddol ynddynt. Maent yn manteisio ar bob cyfle i ganmol y plant. Mae hyn yn cymell y plant i ddilyn eu hesiampl yma ac mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda iawn.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn arbennig o dda. Maent yn addasu gweithgareddau’n wych i ddiwallu eu hanghenion a diddordebau unigol. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr wedi ymateb yn llwyddiannus i ddiddordebau’r plant am gasglu sbwriel drwy fanteisio ar brofiadau yn eu milltir sgwâr. Maent yn dilyn trywydd a diddordebau’r plant gan adael iddynt arwain y dysgu er mwyn darganfod mwy am bobl sy’n gweithio yn y gymuned. Yn ddyddiol, mae ymarferwyr yn ymateb yn grefftus i’r hyn sydd yn digwydd yn chwarae a dysgu’r plant drwy gwestiynau pwrpasol neu drwy gynnig adnodd neu wrthrych newydd. Maent yn eu holi yn fedrus, gan ofyn cwestiynau agored pan yn berthnasol, i ddyfnhau eu dealltwriaeth ac i’w harwain at gamau nesaf eu datblygiad. Wrth arsylwi ar y plant, mae ymarferwyr yn gwybod pryd i gamu mewn a phryd i sefyll yn ôl a gadel i’r plant i ddyfalbarhau a chydweithio, wrth geisio cydbwyso ar foncyff neu lenwi cynwysyddion.

Mae bron bob ymarferwr yn siarad Cymraeg yn hyderus ac yn annog datblygiad llafar y plant yn dda. Maent yn trochi’r plant yn yr iaith, gan ddefnyddio iaith gyfoethog a phatrymau cyson yn ogystal â thrwy ganu rhigymau a chaneuon perthnasol wrth chwarae.

Mae ymarferwyr yn cefnogi ac yn darparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol plant yn fwriadus. Maent y cymryd camau mewn modd amserol er budd y plant. Mae gan ymarferwyr drefniadau effeithiol iawn i gydweithio gyda theuluoedd ag asiantaethau allanol, ac yn gweithredu ar gyngor arbenigwyr. Maent yn defnyddio strategaethau penodol er mwyn cefnogi anghenion plant unigol yn eithriadol o effeithiol. O ganlyniad mae bob plentyn yn llwyddo ac yn teimlo yn hollol gartrefol yn ei amgylchedd dysgu.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu hynod ddiddorol i blant. Mae’r profiadau yn eang a phwrpasol ac yn llwyddo i ennyn eu diddordeb am gyfnodau estynedig, a bodloni eu hanghenion yn llwyddiannus iawn. Mae dealltwriaeth yr ymarferwyr o ddatblygiad plant ac egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn gadarn a thrwy drafod dealltwriaeth, llwyddiannau ac anghenion y plant yn rheolaidd, maent yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau sy’n cyffroi a diddori’r plant. Elfen nodedig o’u cynllunio yw eu gallu i ymateb yn bwrpasol i gwestiynau a syniadau plant yn y fan a’r lle. Maent yn ystyried mewnbwn y plant o ddifri ac yn mynd ati i ddiwallu eu chwilfrydedd ac i ddatblygu eu medrau dysgu cynnar. Er enghraifft, pan fod plant yn dangos diddordeb mewn gwrthrych o adre megis pwmpen o’u rhandir, mae ymarferwyr yn

mynd â'r plant i'r siop lysiau leol i weld beth sydd ar gael. Mae'r cynnyrch o'r siop wedyn yn cyfoethogi adnoddau'r lleoliad ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan y plant i hybu eu medrau corfforol, rhifedd a chreadigol. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau llafar Cymraeg cadarn o oed cynnar plant. Maent yn sicrhau bod llyfrau deniadol wedi eu lleoli mewn sawl ardal o'r lleoliad. Mae'r plant yn ymwybodol iawn ohonynt, ac yn gofyn i ymarferwr ddarllen iddynt, neu'n dewis llyfrau eu hunain yn synhwyrol mewn cyd-destunau gwahanol. Er enghraifft, maent yn dewis llyfr am fabanod i helpu ffrind sy'n chwarae bwydo babi. Mae ymarferwyr yn magu cariad at lyfrau ymysg y plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn darparu adnoddau helaeth i greu marciau ac yn sicrhau fod y plant yn cael cyfleodd pwrpasol i'w defnyddio. Mae'r plant yn creu marciau mewn llyfr nodiadau a phostio'r nodyn yn y blwch postio sydd ger llaw.

Wrth chwarae gyda'r plant a'u hannog i arbrofi ac ymchwilio, mae ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd y plant yn hynod effeithiol. Mae ychydig o blant yn defnyddio tapiau mesur i fesur hyd moron ac yn darllen rhifau oddi ar y tâp yn llwyddiannus. Maent yn adnabod rhifau ar gloc ac yn cyferbynnu rhifau arno gyda'u hoedran. Maent yn defnyddio cynhwysyddion yn effeithiol i ddeall cysyniadau o 'mwy na' a 'llai na' wrth goginio a chwarae mewn dŵr.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau digidol y plant yn arbennig o lwyddiannus. Maent yn sicrhau bod plant yn deall bod offer digidol yn effeithio ar eu bywydau bob dydd drwy chware gydag offer fel tiliau a microdon. Yn ogystal, maent yn defnyddio tortshys arbennig yn effeithiol i oleuo baw ar eu dwylo wrth ddysgu am hylendid personol.

Mae ymarferwyr yn hybu ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn rheolaidd. Yn ogystal â dathlu diwrnodau arwyddocaol fel Diwrnod Santes Dwynwen a Diwrnod Miwsig Cymru, maent yn sicrhau bod crysau chwaraeon Cymru yn yr ardal gwisgoedd, cerddoriaeth Cymraeg yn chwarae yn y cefndir ac adnoddau fel llyfrau a jig-so am Gymru ar gael yn barhaus.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus iawn. Maent yn ymyrryd yn sensitif yn yr achosion prin pan fod plant yn anghytuno â'i gilydd neu eisiau chwarae â'r un offer. O ganlyniad mae gan blant ddealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd gonestrwydd, tegwch a pharch. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar chwilfrydedd naturiol y plant wrth ddatblygu profiadau sy'n eu hannog i ryfeddu a gwerthfawrogi'r byd o'u cwmpas. Maent yn tyfu planhigion yn yr ardal allanol ac yn sylwi ar dreigl y tymhorau yn ystod eu hymweliadau. Maent yn hybu dealltwriaeth plant o ddiwylliannau eraill drwy ddathlu diwrnodau arbennig yng nghalendr gwledydd eraill, a thrwy sicrhau bod adnoddau fel gwisgoedd traddodiadol a bwydydd gwledydd eraill ar gael yn barhaus. Maent yn ymateb yn aeddfed i gwestiynau plant, fel pam fod rhai pobl yn gwisgo hijab, drwy gyflwyno llyfr am bobl a diwylliannau gwahanol iddynt.

Mae'r ymarferwyr yn cadw golwg manwl ar ddatblygiad bob plentyn yn rheolaidd wrth arsylwi arnynt. Maent yn cadw cofnod gwerthfawr o'r hyn maent yn eu harsylwi. Mae bob ymarferydd yn weithiwr allweddol i nifer benodol o blant ac yn gyfrifol am wirio'r arsylwadau ar eu cyfer. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi'r ymarferwyr i adnabod

camau nesaf yn nysgu bob plentyn yn hynod lwyddiannus ac i ddefnyddio'r wybodaeth yn rhagweithiol wrth weithio gyda nhw, gan gynnwys darparu cymorth ychwanegol, lle bo angen.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae gan arweinwyr fesurau, polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr a hynod effeithiol i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn. Mae arferion hylendid yn gyson ac yn drwyadl, sy'n lleihau'r risgiau i iechyd bob un. Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol helaeth sydd yn cael eu hadolygu a'u haddasu yn rheolaidd. Maent yn sicrhau bod y rhain ar waith drwy gwblhau gwiriadau dyddiol hynod o effeithiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn rhoi blaenoriaeth i asesu risg wrth i'r plant chwarae yn yr ardaloedd tu mewn a thu allan ac i weithgareddau penodol. Mae hyn yn cael effaith hynod ar ddatblygiad plant drwy eu galluogi i gymryd risgiau ac ymgymryd â phrofiadau newydd, er enghraifft wrth dorri a llifo yn yr ardal goedwig. Mae cymarebau rhwng ymarferwyr a phlant bob amser yn addas ym mhob ardal. Pan fod angen, mae ymarferwyr yn cydweithio'n hyblyg gan symud o un ardal i'r llall yn unol â dewis plant. Gan fod y drysau'n agored i'r plant yn barhaus, ac mae ganddynt ryddid i grwydro o un lle i'r llall, mae arweinwyr yn sicrhau bod lefelau uchel o oruchwylio a chyfathrebu i sicrhau bod bob un yn ddiogel.

Mae ymarferwyr wedi creu amgylchedd ddysgu ysgogol. Maent yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal ac addysg mewn amgylchedd sydd wedi ei gynllunio a'i osod yn ofalus i hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u dysgu. Mae'r ardal tu allan yn gyfyng ond mae ymarferwyr yn sicrhau defnydd pwrpasol o bob twll a chornel. Er enghraifft, tu allan, mae strwythur corfforol er mwyn i'r plant ddatblygu sgiliau cropian ac ardal goedwig i ddatblygu sgiliau neu gael amser tawel i ganolbwyntio ac ymgolli eu hunain yn eu chwarae dychmygus. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd tu mewn a thu allan yn fwriadus er mwyn cynnig ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n annog y plant i symud o un gweithgaredd i'r llall yn effeithiol. Mae'r plant yn symud yn hollol annibynnol o gwmpas yr ardaloedd tu fewn a thu allan drwy gydol y dydd. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o'r ardaloedd ac yn canolbwyntio ar eu tasgau am gyfnodau priodol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd rheolaidd o'r ardal leol i gefnogi datblygiad a phrofiadau'r plant.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae yn sbarduno dychymyg a sgiliau'r plant yn wych. Er enghraifft, mae'r plant yn manteisio ar bebyll ar gyfer amser tawel ac yn ymgolli eu hunain mewn llyfr. Maent yn darparu adnoddau o ansawdd uchel. Mae'r ymarferwyr yn eu gosod mewn modd sy'n galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb gefnogaeth oedolyn. Maent yn sicrhau bod digon o'r un math o adnodd er mwyn i'r plant wneud dewisiadau pwrpasol ynglŷn â'u trywydd dysgu. Enghraifft nodweddiadol o hyn yw'r nifer o gewyll, a blychau pren aml ddefnydd sydd ar gael i'r plant i ddefnyddio. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i'r plant i ddysgu am ail-ddefnyddio ac ail-bwrpasu deunyddiau ac adnoddau, ac yn sicrhau nad oes ffiniau i chwarae dychmygus y plant.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth hynod o gryf ar gyfer y lleoliad sy'n cael ei rannu'n llwyddiannus gyda bob ymarferydd. Maent i gyd yn angerddol am ddarparu'r

sylfaen a’r profiadau gorau posib i bob plentyn mewn awyrgylch hollol gynhwysol. Mae’r tîm cyfan yn cyfleu ymdeimlad teuluol a gofalgar drwy’r holl sefydliad. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a’r ymarferwyr, ac yn eu tro mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o’r plant. Mae hyn yn amlwg drwy’r lleoliad gyda phlant yn cael eu cefnogi’n fedrus i gyrraedd y cam nesaf yn eu datblygiad yn barhaus. Mae lles staff yn bwysig iawn i arweinwyr ac mae camau gofal cadarn mewn lle i’w cefnogi. Golyga hyn fod gan y lleoliad staff sefydlog sy’n adnabod y plant a’u teuluoedd yn dda.

Mae’r arweinwyr yn dilyn polisïau recriwtio diogel a chadarn ac mae gan bron bob ymarferydd gymhwyster priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant. Mae ymarferwyr newydd yn derbyn cefnogaeth fuddiol iawn drwy weithio’n agos gyda mentor a ‘bydi’ wrth iddynt ddysgu am weithdrefnau llwyddiannus y lleoliad. Mae’r arweinwyr yn cynnal camau gwerthuso perfformiad ymarferwyr yn rheolaidd sy’n cynnwys sgyrsiau proffesiynol buddiol ac sy’n arwain at gyfleoedd dysgu proffesiynol cyfoethog ac amserol. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn llwyr ymwybodol o’u rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn sylweddoli eu bod yn rhan bwysig ac annatod o leoliad hynod lwyddiannus.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau effeithiol iawn ar gyfer gwerthuso eu gwaith ac adnabod eu cryfderau a’r agweddau sydd angen sylw. Maent yn ystyried barn ymarferwyr a rhieni a gofalwyr, ac yn gwrando ar lais y plant wrth ystyried beth allant gryfhau ymhellach. Mae arweinwyr yn defnyddio eu canfyddiadau i flaenoriaethu gwelliannau ac yn gweithredu ar eu cynlluniau yn amserol gan gynnwys yr holl staff yn y broses. Mae hyn yn golygu bod ganddynt hanes lwyddiannus, gynaliadwy o hunan-wella.

Mae arweinwyr yn gweithio’n agos gyda nifer o bartneriaid er mwyn darparu’r gofal a’r addysg orau posib i’r plant. Mae ganddynt berthynas weithredol, effeithiol â’r rhieni a gofalwyr, staff ysgol gynradd leol, ac athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol. Maent yn gweithio'n hynod lwyddiannus gyda rhieni a gofalwyr i ddod i adnabod y plant cyn iddynt ddechrau eu cyfnod yn y lleoliad. Mae’r teulu yn ymweld er mwyn i’r plentyn ymgyfarwyddo â’r adeilad ac i drafod eu hoffterau a’u hanghenion. Maent yn cyfrannu at fwrdd ‘ein teulu’ sy’n ffocws i blant yn y lleoliad i deimlo’n gysurus a thrafod eu teuluoedd. Mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth gyson i rieni ar yr hyn mae eu plant yn ei wneud yn ystod y dydd, ynghyd â’r cynnydd maent yn ei wneud mewn meysydd penodol. Trwy sgwrsio yn anffurfiol wrth y fynedfa, a thrwy gyfrwng ap defnyddiol, mae yna gyfathrebu clir a gwerthfawr rhwng y lleoliad a’r cartref.

Mae gan arweinwyr berthynas waith buddiol ag athrawon ymgynghorol sydd yn ymweld yn gyson. Mae’r berthynas hon yn aeddfed ac yn cyfrannu’n werthfawr at ddatblygiad y ddarpariaeth dros amser. Mae cysylltiadau gydag ysgol gynradd leol yn datblygu’n effeithiol. Mae athrawes o’r ysgol yn mynychu’r lleoliad yn achlysurol er mwyn dod i adnabod y plant cyn iddynt drosglwyddo i’r ysgol. Mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr iddynt am bob plentyn sydd yn galluogi’r ysgol i ddod i adnabod y plant yn gyflym iawn. Mae’r arweinwyr yn cydweithio’n agos â’r gymuned leol, er enghraifft wrth brynu nwyddau mewn siopau lleol. Maent yn ymweld â’r parc yn aml gan atgyfnerthu dealltwriaeth y plant o ddiogelwch y ffordd ar eu teithiau rheolaidd yn y gymuned. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o’u cymuned ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol iawn o’u hardal leol a’u cynefin.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/12/2024